



barcud

Disgrifiad Swydd

Peiriannydd Gwresogi

Mae'r holl feini prawf yn hanfodol oni nodir fel arall

Yn atebol i'r canlynol: Arweinydd y Tîm Plymio

Yn gyfrifol am y canlynol: Amherthnasol

Diben cyffredinol y swydd: Darparu gwasanaeth cynnal a chadw effeithlon, ymatebol a chylchol ar gyfer plymwaith a systemau gwresogi yn eiddo Barcud neu mewn eiddo cleientiaid.

Cyfrifoldebau Allweddol –

Dyletswyddau plymio:

- Atgyweirio plymwaith/systemau gwresogi wrth ymateb i ddiffygion y ceir gwybod amdanynt, diagnosio diffygion a gosod cydrannau newydd yn lle cydrannau diffygiol fel y bo angen, gan gynnwys ailgysylltu systemau a ddatgysylltwyd.
- Cynorthwyo i weithredu'r rhaglen flynyddol o waith cynnal a chadw fel y bo angen, gan gynnwys gwaith sy'n ymwneud â gwresogi, rhoi gwasanaeth, chwilio, glanhau, a gosod cydrannau newydd yn lle hen rai fel y bo angen.
- Darparu adroddiadau technegol a chyffredinol yn ysgrifenedig ac ar lafar, gan gynnwys rhoi adborth cwsmeriaid ynghylch problemau cynnal a chadw ar gyfer datblygiadau'n awr ac yn y dyfodol, gan nodi agweddau sy'n peri pryder, os oes angen.
- Cadw cofnodion priodol, megis cofnodion o waith atgyweirio a gyflawnwyd, cyswllt â phreswylwyr, archebion ac ati.
- Cwblhau'r holl waith papur perthnasol yn gywir.
- Sicrhau bod yr holl waith yn cael ei gyflawni yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol ynghylch iechyd a diogelwch, a'i fod yn cael ei gyflawni mewn modd diwyd gan sicrhau bod anghenion y tenant o ran diwylliant ac amrywiaeth yn cael eu rheoli, ac adnabod a gweithredu cyfleoedd i wneud y defnydd gorau posibl o'r holl adnoddau.
- Sicrhau bod yr holl waith yn cydymffurfio â'r holl reoliadau cyfreithiol a statudol ynghyd ag arfer gorau.
- Fel sy'n ofynnol, cyflawni dyletswyddau crefftwr mewn disgyblaethau gwahanol er mwyn addasu i ofynion Barcud o ran busnes, sy'n newid yn barhaus.

Pobl:

- Bod yn gyfrifol am reoli'r Prentisiaid Plymio yn gyffredinol, gan sicrhau eu bod yn gweithredu i'r safonau uchaf.
- Hybu diwylliant o gyflawni'n dda, sy'n hybu gwelliant parhaus ac arbedion effeithlonrwydd.
- Rhannu gwybodaeth am flaenoriaethau, cynlluniau, gweledigaeth ac amcanion y Gymdeithas er mwyn sicrhau bod gwaith yn cael ei gyflawni'n effeithiol gan fodloni'r safonau gwasanaeth a'r targedau a gytunwyd.

Corfforaethol:

- Hybu, datblygu a rheoli partneriaethau effeithiol â rhanddeiliaid mewnol ac allanol er mwyn sicrhau gwelliant parhaus wrth ddarparu gwasanaethau.
- Hybu mentrau iechyd a lles ym mhob rhan o'r sefydliad.
- Darparu gwasanaeth ardderchog i bob cwsmer mewnol ac allanol.
- Gweithio'n unol â pholisiau'r Gymdeithas ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant bob amser ac ym mhob agwedd ar waith cyflogi a darparu gwasanaethau.
- Sicrhau bod y Gymdeithas a'i gweithwyr yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol, statudol a rheoleiddiol ynghyd ag arfer gorau.
- Ym mhob agwedd ar waith y Gymdeithas, hyrwyddo systemau cyfathrebu effeithiol, rhagoriaeth o ran gwasanaeth i gwsmeriaid, a ffocws ar wella'n barhaus.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau eraill y gallai fod yn rhesymol gofyn i ddeiliad y swydd eu cyflawni.

Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd hwn fod yn rhestr gyflawn, ac o gofio y bydd gofynion, deddfwriaeth a rheoliadau'n newid, efallai y bydd angen adolygu a diwygio'r dyletswyddau fel y bernir yn rhesymol ac yn briodol.



barcud

Manyleb Person

Peiriannydd Gwresogi

Mae'r fanyleb person hon yn nodi'r profiad a'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer swydd Peiriannydd Gwresogi yn Barcud. Mae'r holl sgiliau a'r holl brofiad yn hanfodol oni nodir yn benodol eu bod yn ddymunol (D).

Cymwysterau:

- Cymhwyster Lefel 2 neu 3 NVQ/City & Guilds (dymunol) cydnabyddedig yn y maes.
- Cymhwyster i weithio gyda systemau gwres canolog, gwresogyddion dŵr, gwaith gyda phibellau, a dŵr poeth mewn systemau caeëdig.
- Cymhwyster ym maes dwy dechnoleg (OFTEC, Gas Safe, F-Gas, Unvented (G3)) ac o leiaf dwy flynedd o brofiad o weithio ym maes un o'r technolegau. Gorau oll os nwy yw un o'r technolegau hynny ond gall fod yn dechnoleg arall a fydd yn dibynnu ar anghenion cyfredol y busnes.
- Tystiolaeth bod gwybodaeth broffesiynol yn cael ei datblygu'n barhaus.
- Trwydded yrru lawn a glân.

Profiad:

- O leiaf 4 blynedd yn olynol o brofiad o weithio fel plymer domestig, gyda gwybodaeth sylfaenol am bympiau gwresogi ac am sut mae diagnosis diffygion arnynt.
- Profiad o fod yn rhan o dîm sy'n gweithio ar gontractau cylchol a chontractau rhoi gwasanaeth.
- Profiad o ddarparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.
- Profiad o gyflawni ystod o brosiectau o fewn yr amserlen a'r gyllideb a bennwyd.
- Profiad o gyflawni amcanion a thargedau heriol.
- Tystiolaeth o sicrhau rhagoriaeth wrth adolygu a darparu gwasanaethau, ac ymrwymiad i wella'n barhaus.
- Profiad o arwain, e.e. arwain timau prosiectau.
- Profiad o reoli tîm o staff a chyflawni cyfrifoldebau goruchwylio. (D)
- Profiad o reoli perfformiad tîm. (D)

Gwybodaeth/Sgiliau:

- Y gallu i adnabod diffygion mewn plymwaith a ffyrdd o'u hunioni.
- Y gallu i arwain a rheoli staff.
- Sgiliau ariannol a sgiliau cyllidebu.
- Sgiliau rhyngpersonol.
- Y wybodaeth ddiweddaraf am iechyd a diogelwch.
- Y wybodaeth ddiweddaraf am fframweithiau deddfwriaethol a materion allweddol sy'n berthnasol i'r swydd.
- Gwybodaeth gadarn am reoli perfformiad a'r modd y mae hynny'n cyfrannu at lwyddiant busnes.
- Sgiliau rheoli prosiect gyda'r gallu i gynllunio, trefnu a blaenoriaethu'n effeithiol, er mwyn cyflawni targedau a bodloni terfynau amser.
- Y gallu i gynhyrchu adroddiadau cynhwysfawr o safon er mwyn gallu gwneud penderfyniadau'n effeithiol.
- Y gallu i siarad Cymraeg. (D)
- Y gallu i sicrhau canlyniadau o fewn terfynau amser tynn a than bwysau.
- Sgiliau TG ardderchog.
- Sgiliau cadarn o safbwynt trafod rhifau, rhesymu, a chyfathrebu ysgrifenedig.
- Gallu amlwg i ymdrin â gwybodaeth gyfrinachol a sensitif.
- Y gallu i osod targedau perfformiad priodol a heriol i'w dîm ac i'w hun.
- Y gallu i hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob agwedd ar waith cyflogi a darparu gwasanaethau.